Ffeithlen Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae'r ffeithlen hon yn ymwneud â chwynion am y ffordd y mae'r Cyngor wedi ymdrin â hysbysu am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dylid ei darllen ochr yn ochr â'r Weithdrefn Gwynion.

Mae gan Gynghorau amrywiaeth eang o ddyletswyddau a phwerau sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn y gymuned a rhaid iddynt gydweithio â chyrff eraill megis yr heddlu i ymdrin â phroblemau o'r fath. A hwythau'n landlordiaid, mae gan Gynghorau a chymdeithasau tai ddyletswyddau penodol i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd yn y preswylfeydd y maent yn eu rheoli. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol gynnwys bod yn rhy swnllyd, aflonyddu ar bobl, difrïo ar lafar, bygwth a fandaleiddio.

Dylai unrhyw gŵyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol gael ei chyflwyno i'r Heddlu drwy ffonio 101, eu rhif ar gyfer achosion di-argyfwng. Os yw'r ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud ag un o denantiaid y Cyngor neu os yw'n un o gyfrifoldebau'r Cyngor megis mân-sbwriel, graffiti neu gerbydau a adawyd, dylech ffonio'r Cyngor (01267 234567).

Gall y Weithdrefn Gwynion hon er hynny ystyried a oedd rhywbeth o'i le ar y modd yr oedd y Cyngor wedi ymdrin â chwynion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ôl i'r Cyngor gael gwybod am yr ymddygiad hwnnw. Gall hyn gynnwys peidio â gwneud y canlynol:

- bod â gweithdrefnau priodol i roi cyfarwyddyd i'r staff ynghylch sut mae cofnodi achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymchwilio iddynt a'u monitro.
- egluro i'r achwynwyr beth yw'r gweithdrefnau a sut y cofnodir cwynion a sut yr ymchwilir iddynt.
- ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael i reoli'r ymddygiad neu ystyried yr amrywiaeth lawn o sancsiynau cyfreithiol y gellir eu defnyddio.
- cydweithio ag asiantaethau eraill megis yr heddlu i ymdrin â'r problemau.
- fel bo'n briodol, cynorthwyo'r rhai sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol gan eraill, a rhoi gwybodaeth iddynt yn gyson a'u cynghori ynghylch y camau i'w cymryd i'w diogelu os bydd angen.
- ymdrin yn brydlon â'r sawl sy'n peri'r broblem.

Ni all y weithdrefn gwynion ymdrin â'r canlynol:

- methiannau a ddigwyddodd fwy na 12 mis yn ôl ac os yw'r niwsans wedi peidio.

Os oes gennych ymholiad cyffredinol neu os nad ydych yn sicr sut mae rhoi gwybod am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, cysylltwch â Michelle Langshaw (Cydgysylltydd Materion sy'n Ymwneud ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) drwy ffonio (01269) 598356.